## Awdurdod Parc Cenedlaethol
## 18 Mehefin 2025

**Yn Bresennol (o bell)**
Dr M Havard (Cadeirydd)
Y Cynghorydd S Alderman, y Cynghorydd M Bowen, y Cynghorydd D Clements, y Cynghorydd T Evans, y Cynghorydd C George, y Cynghorydd SL Hancock MBE, Mrs S Hoss, y Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Dr R Plummer, y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, y Cynghorydd V Thomas a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol:**
Lynwen Davies (Cyfieithydd ar y Pryd), Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Mike Kent (Swyddog Monitro), Gayle Lister (Prif Swyddog Cynllunio – Polisi Strategol) a Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd).

[Cyfarfod Ar-lein, 10.35am – 12.23pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd A Tinley.

**2. Datgan Buddiannau**
Datganodd y Cynghorydd B Price fuddiant yn adroddiad 22/25, Ymateb yr Awdurdod i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Newidiadau i'r Hawliau Datblygu a Ganiateir.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07 Mai 2025 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cyflwynodd y Prif Weithredwr yr amserlen ddiweddaraf ar recriwtio dau Aelod a benodir gan Lywodraeth Cymru yr oedd disgwyl iddynt gael eu penodi erbyn diwedd mis Awst.

Ar gynnig y Cynghorydd C George, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07 Mai 2025.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**
O ran cam gweithredu 1069, i benderfynu'n derfynol ar y 3 Aelod i'w hethol ar y Panel Ffermio Bro, cadarnhaodd y Prif Weithredwr mai'r 3 Aelod a ddewiswyd oedd y Cynghorydd D Clements, y Cynghorydd C George a Dr M Havard.

O ran cam gweithredu 1071, tynnu gwrthwynebiad yr Awdurdod i'r Prosiect Fferm Ynni Gwynt Arnofiol Llŷr ar y Môr yn ôl a'i ddiwygio i sefyllfa o bryder gydag amodau, roedd Aelod wedi pwysleisio pa mor bwysig yw bod yr Awdurdod yn monitro'r cais wrth i'r cais fynd drwy'r camau nesaf. Nodwyd hyn gan y Swyddog perthnasol, a chytunodd i ddosbarthu unrhyw ddiweddariad i'r Aelodau pe bai unrhyw rai yn codi.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cynghorydd D Clements ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau/ cyfarfodydd canlynol yn ystod y mis diwethaf:

- Cynhadledd Cymdeithas Staff y Parciau Cenedlaethol lle daeth cynrychiolwyr o bob Parc Cenedlaethol yn y DU ynghyd i rannu arfer gorau a gwybodaeth.
- Cyfarfod gyda Gweithgor Oriel Tirwedd Sir Benfro i drafod Oriel y Parc a'i dyfodol.
- Cyfarfod gyda Dr M Havard a'r Panel Penodi'r Pwyllgor Safonau Annibynnol i gynnal cyfweliadau i benodi Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.

Ychwanegodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las yn Arberth oedd yn llwyddiant mawr.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried:

i) Y Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 09/04/025 a 12/05/2025.
ii) Y Pwyllgor Gwasanaethau Pobl a gynhaliwyd ar 19/03/2025.
iii) Y Fforwm Gwirfoddolwyr a gynhaliwyd ar 24/03/2025.

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

[Ymunodd y Cynghorydd M Bowen â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.]

**7. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (LIC) ar y Newidiadau i'r Hawliau Datblygu a Ganiateir (PD)**

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Polisi Strategol a gyflwynodd adroddiad oedd yn amlinellu ymateb arfaethedig yr Awdurdod i

ymgynghoriad LIC ar y newidiadau i’r hawliau datblygu a ganiateir o ran Pympiau Gwres o’r Aer, Parcio Oddi ar y Stryd, Gwefru Cerbydau Trydan, Safleoedd Gwersylla Dros Dro, Peiriannau Rhoi Arian am Ailgylchu, Datblygiad gan Ymgymerwyr Statudol (trydan), Tai Fforddiadwy a Defnydd yn y Cyfamser; a newid i'r diffiniad o ddatblygiad ar raddfa fawr. Dywedwyd y byddai'r ymgynghoriad yn parhau tan y 1af o Orffennaf 2025, a cheisiwyd barn yr Aelodau ar yr ymgynghoriad.

Eglurodd y Swyddog ei fod yn gofyn am ganiatâd i gysylltu â’r Tirweddau Dynodedig eraill er mwyn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno ymateb ar y cyd gan Dirweddau Cymru ar ran pob Parc Cenedlaethol a phob Tirwedd dynodedig yng Nghymru, cyn belled â bod y tirweddau dynodedig eraill yn cytuno. Roedd yr adroddiad yn amlinellu’r wybodaeth gefndir, ac yn tynnu sylw at y prif bryderon a’r materion yr oedd yr Awdurdod o’r farn nad oedd wedi derbyn sylw digonol gan y cynnig. Yn ogystal, o ran Tai Fforddiadwy a defnyddio safleoedd eithriedig, dywedwyd bod y Swyddogion yn dymuno cynnwys cyfeiriad at yr effaith bosibl ar archaeoleg, yn amodol ar gytundeb yr Aelodau.

Trafododd yr Aelodau y newidiadau arfaethedig i’r hawliau datblygu a ganiateir, a chytunwyd bod y newidiadau hyn yn amhriodol mewn Tirweddau Cenedlaethol. Gofynnwyd am i gopi terfynol o ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad gael ei ddosbarthu i'r Aelodau, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd**:

a) cymeradwyo’r ymateb i'r ymgynghoriad a chaniatâd i wneud mân newidiadau pellach yn amodol ar ymgynghori â’r Tirweddau Dynodedig eraill.
b) bod cyfeiriad at yr effaith bosibl ar archaeoleg yn cael ei gynnwys o dan Tai Fforddiadwy a’r defnydd a wneir o safleoedd eithriedig.

**8. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau am y flwyddyn 2024/2025. Roedd yr adroddiad yn amlinellu ei bod yn ddyletswydd statudol i baratoi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ar y modd yr oedd swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau wedi'u cyflawni, ac yn rhoi trosolwg o faterion ymddygiad. Roedd yr adroddiad yn manylu ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor ac yn ymdrin â phynciau megis hyfforddiant, cwynion, tueddiadau, protocol datrysiad lleol, goddefebau, polisïau, yr adroddiad blynyddol i'r Ombwdsmon ac ymgynghoriadau perthnasol.

Nododd yr Aelodau yr adroddiad.

**Nodwyd.**

**9. Gweithdrefn ar gyfer Ymdrin â Honiadau yn Erbyn Aelodau**
Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad oedd yn amlinellu gweithdrefn arfaethedig ar gyfer cynnal ymchwiliad gan Bwyllgor Safonau yr Awdurdod. Eglurodd y Swyddog, pe bai'n ofynnol i'r Pwyllgor Safonau gynnal ymchwiliad i ymddygiad Aelod, ei bod yn bwysig bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r weithdrefn briodol cyn i'r angen godi.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** cymeradwyo'r weithdrefn arfaethedig ar gyfer cynnal ymchwiliad gan Bwyllgor Safonau yr Awdurdod.

[Gohiriwyd y cyfarfod o 11:30am – 11:40am]

**10. Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg**
Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd wedi cyflwyno Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg i’r Aelodau ei gymeradwyo cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Eglurodd y Swyddog ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Adroddiad Blynyddol erbyn y 30ain o Fehefin bob blwyddyn yn unol â Safonau 158, 164 a 170 o'r Hysbysiad Cydymffurfio. Roedd yr adroddiad yn crynhoi gwaith yr Awdurdod o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys manylion ar bob un o'r grwpiau o safonau, yn ogystal â thynnu sylw at faterion oedd wedi codi yn ystod y cyfnod adrodd, a nodi rhai camau gweithredu sydd yn yr arfaeth yn ystod y flwyddyn oedd i ddod.

Dywedodd y Swyddog bod rhai Aelodau yn dal heb lenwi’r arolwg o’u sgiliau yn y Gymraeg, a nodwyd hyn gan yr Aelodau perthnasol i fynd ati i lenwi’r arolwg.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg fel cyflwyniad yr Awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg.

**11. Pwyllgor Gwasanaethau Pobl**
Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn cynnig uno'r Pwyllgor Gwasanaethau Pobl â'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol. Eglurodd y Swyddog mai prin oedd y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwasanaethau Pobl dros y blynyddoedd diwethaf, a bod yr adroddiadau yn cynnwys yn bennaf y wybodaeth ddiweddaraf am waith y tîm, ac nad oedd hyn yn cael ei ystyried yn ddefnydd da o amser yr Aelodau na'r Swyddogion.

Roedd yr adroddiad yn rhoi rhagor o fanylion am y cynnig i uno’r ddau Bwyllgor ac yn rhoi cylch gorchwyl diwygiedig i’r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod bod gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fwy o Bwyllgorau na'r ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru, ac y gallai fod modd mwy effeithlon o redeg yr Awdurdod. Cafwyd trafodaeth wedyn ar yr effaith y byddai'r uno yn ei gael ar lwyth gwaith y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol, a chadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r Swyddogion yn ceisio rheoli agenda'r Pwyllgor Archwilio drwy gyflwyno eitemau â mwy ffocws iddynt ar yr agenda.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** uno'r Pwyllgor Gwasanaethau Pobl â'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol.

**12. Digwyddiadau Corfforaethol**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn gofyn am i'r Aelodau awdurdodi lefel y gynrychiolaeth yng Nghynhadledd Cynllunio Cymru ac yn Seminar Aelodau Cymru. Roedd yr adroddiad yn rhoi rhagor o fanylion am y ddau ddigwyddiad ac yn tynnu sylw at y ffaith bod mynychu digwyddiadau allanol yn rhan bwysig o ddyletswyddau'r Aelodau.

Trafododd yr Aelodau y Gynhadledd Gynllunio, a gwelwyd bod dau le am ddim ar gael yn y gynhadledd hon i'r Aelodau. Cytunwyd y byddai'n briodol i Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu fynychu, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

O ran Seminar Aelodau Cymru, dywedwyd bod caniatâd i bob Aelod fynychu'r digwyddiad hwn, ac y byddai rhagor o fanylion yn cael eu dosbarthu unwaith y byddent ar gael.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock MBE, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** awdurdodi lefel y gynrychiolaeth yng Nghynhadledd Cynllunio Cymru ac yn Seminar Aelodau Cymru.

**13. Eithrio'r Cyhoedd**

Nodwyd, wrth drafod yr adroddiad canlynol, y gellid rhannu gwybodaeth oedd yn fasnachol sensitif, ac felly gofynnwyd am eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**14. Cofrestr Risg**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn amlinellu’r newidiadau i broses yr Awdurdod o Reoli Risg yn dilyn gwaith helaeth gan y Swyddogion i ddatblygu'r dulliau, ac archwiliad diweddar o’r Aeddfedrwydd Risg oedd yn dangos bod angen gwneud rhagor o waith. Roedd yr adroddiad yn amlinellu’r newidiadau i Strategaeth a Chanllawiau yr Awdurdod ar Reoli Risg, y Gofrestr Risg, y Datganiad ar Barodrwydd i Dderbyn Risg, a'r Sbardunau ar gyfer Adolygu a Chymryd Camau Gweithredu.

Bu’r Aelodau yn trafod y newidiadau arfaethedig, ac er i’r sylw gael ei wneud y gallai gwybodaeth ychwanegol fod yn ddefnyddiol mewn rhai o’r meysydd, cytunodd pawb fod dull newydd yr Awdurdod yn un priodol.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** cymeradwyo'r dogfennau Rheoli Risg canlynol:

- Y Strategaeth a’r Canllawiau Rheoli Risg
- Fersiwn ddiwygiedig o'r Gofrestr Risg
- Y Datganiad ar Barodrwydd i Dderbyn Risg
- Y Sbardunau ar gyfer Adolygu a Chymryd Camau Gweithredu

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 30/07/2025 heb eu diwygio. |